**Cyngor Sir Fynwy**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Remote Meeting**
**Dydd Mawrth, 3ydd Tachwedd, 2020, 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol R. Edwards (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol P. Clarke (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: J.Becker, L.Brown, A.Davies, D. Dovey, A. Easson, D. Evans, M.Feakins, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, P. Murphy, M. Powell, A. Webb and S. Woodhouse |

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Head of Planning |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Amy Longford | Rheolwr Treftadaeth |
| Denzil – John Turbervill | Commercial Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## YMDDIHEURIADAU:

Dim.

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 6 Hydref 2020 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd gyda'r gwelliant dilynol:

Cais DM/2020/00883, pwynt bwled 11, diwygio'r drydedd frawddeg fel sy'n dilyn.

Mae dogfen Amodau Safonol Enghreifftiol Carafanau 2008 y cyfeirir ati ym mharagraff 61 yn nodi fod yn rhaid i garafanau gael eu lleoli o leiaf chwe metr oddi wrth unrhyw garafan arall ond gall y pellter gael ei ostwng i isafswm o 5.25 metr os ychwanegir deunyddiau cladin ymwrthod â thândxersc.

3. **Cais DM/2019/01004 - Dymchwel yr annedd bresennol a'i disodli â chanolfan fyw weithredol sy'n darparu 18 o fflatiau ymddeol o ansawdd uchel, gofod byw cymunedol, strategaeth tirwedd helaeth (gan gynnwys to gwyrdd) gyda chwrt preifat wedi'i dirlunio ynghyd â chyfleusterau pwll a champfa. Maes Glas, Heol Merthyr, Llan-ffwyst.**

Derbyniwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd dros wrthod am un rheswm fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar 6 Hydref 2020 gydag argymhelliad ar gyfer cymeradwyaeth gydag amodau. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor wedi bod o'r farn y dylid gwrthod y cais fel sy'n dilyn:

Oherwydd yr ymgasglu, maint gormodol, dyluniad a safle amlwg, byddai'r datblygiad arfaethedig yn niweidiol i ymddangosiad y safle a golwg y strydoedd o amgylch ac felly byddai'n arwain at adeilad ansensitif, ymwthiol ac estron a fyddai'n methu parchu a chymhathu dull, maint, safle a deunyddiau'r gosodiad. Yn ychwanegol, bydd y cynllun a gynigir yn niweidiol i olygfa a phreifatrwydd preswylwyr cyfagos mewn ardal a nodweddir gan safonau uchel o breifatrwydd a dwysedd is o ddatblygiad a byddai'n cyfyngu golygfeydd hir tuag at Safle Treftadaeth Byd Blaenafon. Ymhellach, ni all y datblygiad arfaethedig ddangos lliniaru bioamrywiaeth cadarnhaol na gwella a diogelu rhywogaethau o bwysigrwydd. Fel canlyniad, ni fyddai'r datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisïau NE1, S13 a DES1 b,c,d,e,g a l Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy.

Felly cafodd y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer ei wrthod gyda rheswm addas dros wrthod.

Wrth nodi manylion y cais, gwnaed y pwyntiau dilynol:

- Roedd yr Aelod lleol dros Lan-ffwyst wedi derbyn y rhesymau dros wrthod y cais.

- Mynegodd aelod o'r Pwyllgor gefnogaeth i'r cais a chytuno gydag argymhelliad gwreiddiol y swyddog y dylai'r cais gael ei gymeradwyo gydag amodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir G. Howard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir M. Powell y dylid gwrthod cais DM/2019/01004 am y rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid gwrthod | : | 15 |
| Yn erbyn gwrthod | : | 1 |
| Ymatal | : | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2019/01004 am y rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

4. **Cais DM/2019/02012 - Datblygiad arfaethedig o 24 uned gofal ychwanegol (Defnydd Dosbarth C2), mynediad a pharcio ceir, tirlunio, triniaethau ffin a dull amgáu. Tir i'r De o Fwyty Brewers Fayre, Heol Iberis, Llan-ffwyst.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar 6 Hydref 2020 gydag argymhelliad i wrthod. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn tueddu i fod o blaid cymeradwyo'r cais. Felly cafodd y cais ei ail-gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ei ystyried.

Wrth nodi manylion y cais, cefnogodd yr Aelod lleol dros Lan-ffwyst yr argymhelliad ar gyfer cymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir G. Howard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Murphy i gymeradwyo cais DM/2019/02012 gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad gan ychwanegu gwybodaeth ychwanegol, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 16 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2019/02012 gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad gyda gwybodaeth ychwanegol yn cael ei hychwanegu, fel yr amlinellir mewn gohebiaeth hwyr.

5. **Cais DM/2020/00623 - Dileu amodau rhif 5, 6 a 12 sy'n ymwneud â chais DC/2015/01424. Tir gerllaw Fferm Maerdy Uchaf, Bryn Coch i'r B4235, Llangyfiw, Brynbuga.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r 13 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Dynodwyd y pwyntiau dilynol wrth nodi manylion y cais:

- Diwygio amod 6 fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr
- Ychwanegu gwybodaeth i gynnwys cyfeiriad at yr angen am drwydded safle

Amlinellodd yr Aelod lleol dros Langybi Fawr, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau dilynol:

- Mynegwyd pryder fod y meintiau a amlinellir yn yr adroddiad yn cyfeirio at leiniau 1 a 2 yn anghywir gan arwain at gyfanswm arwynebedd ar gyfer pob un o'r unedau o 72.5 metr sgwâr.
- Mae Cyngor Cymuned Llantrisant yn gwrthwynebu'r cais oherwydd maint ac ymgasgliad y tair uned.
- Mae Llain 3, sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd, yn cael ei oleuo'n ormodol ar gyfer yr ardal.
- Cafodd sgrinio ei symud o'r ardal.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir R. Harris i gymeradwyo cais DM/2020/00623 gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad ac ychwanegu amod ychwanegol ar oleuadau i sicrhau y caiff cynllun goleuadau ei gyflwyno i a'i gytuno ar gyfer y safle cyn i unrhyw lain gael ei defnyddio, ac mai dim ond fel y cytunwyd gan y cynllun hwn y

dylai goleuadau fod. Dylid diwygio amod 6 fel yr amlinellir mewn gohebiaeth hwyr. Dylid ychwanegu gwybodaeth i gynnwys cyfeiriad at yr angen am drwydded safle.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | : | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | : | 1 |
| Ymatal | : | 2 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo DM/2020/00623 yn destun i'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad ac y dylid ychwanegu amod ychwanegol ar oleuadau i sicrhau y caiff cynllun goleuadau ei gyflwyno i a'i gytuno ar gyfer y safle cyn y caiff unrhyw lain ei ddefnyddio, a dim ond fel y cytunwyd gan y cynllun y dylai'r goleuadau a osodir ar y safle fod. Dylid diwygio amod 6 fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr ac ychwanegu gwybodaeth i gynnwys cyfeiriad at yr angen am drwydded safle.

6. **Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniad apêl: Tir yn 'Myrtle Cottage', Cyswllt Caerwent, Caerwent.**

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio sy'n ymwneud â'r penderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Myrtle Cottage, Dolen Caerwent, Caerwent ar 8 Medi 2020.

Nodwyd y cafodd yr apêl ei gwrthod.

7. **Penderfyniadau Apeliadau Ebrill 2019 - Mawrth 2020.**

Nodwyd y penderfyniadau apêl newydd a dderbyniwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.